# DINESYDD

## Mai

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1982

RHIF 86

# BRWYDR BRYNTAF ETO!

## HAVARD GREGORY - EIN CADEIRYDD NEWYDD



Gweler tud 11.

Fe hoffwn ni, Cymdeithas Rhieni Ysgol Gymraeg Bryntaf, ddwyn eich sylw at fanylion yr anghydfod a'r ansicrwydd sydd yn wynebu Ysgol ein plant ar hyn o bryd, gan obeithio y gwelwch hyn yn fodd i'n cefnogi.

Mae ein hymgyrch yn syml. Rydym am ddarbwyllo Pwyllgor Addysg De Morgannwg y dylent ddarparu ysgol addas yn ganolog i'r ardaloedd mae'r mwyafrif o'r plant yn byw, sef Y Rhath/Penylan/Cathays. Ni ofynnwn am ddim mwy na'r hawl, fel rhieni plant mewn ysgolion eraill, i anfon ein plant ifanc i ysgol gyfleus i'r Gymdogaeth.

O bosib fe wyddoch hanes anghyson yr Ysgol ers ei sefydlu ym 1949. Cafodd yr Ysgol gartref "dros-dro" mewn pedwar safle gwahanol - yn Grangetown, Llandaf, Mynachdy a'r Rhodfa, ac yn ystod yr 30 mlynedd ers ei sefydlu ni chafodd erioed olwg ffafriol yng nghyllid y Cyngor. Addawyd lawer gwaith i adeiladu ysgol newydd, ond torrwyd yr addewidion. Ym 1980, tra roedd yr Ysgol yn dal yn y Rhodfa, cytunodd y Cyngor i ddosbarthu y plant oedd yno ar y pryd i 4 safle newydd i wasanaethu pedair cymdogaeth. Dechreuwyd gyda sefydlu Ysgol Melin Gruffydd ym 1979, gyda ysgol i'w sefydlu ym Mhentrebane (Coed y Gof), a Pharc Cefn Onn (Y Wern), a'r bedwaredd i'w hadeiladu ar safle i'w benodi. Ar sail hyn, pan gyhoeddwyd rhybuddion (Section 13), ni wnaeth ein Cymdeithas Rhieni unrhyw wrthwynebiad i'r Swyddfa Gymreig, gan ein bod ar ddeall y byddai ysgol newydd yn cael ei hadeiladu i weddill y plant yn y Rhodfa.

Ers y dosbarthiad o'r plant i Melin Gruffydd, Y Wern a Choed y Gof, parhaodd y "frwydr" ac mae'n siwr eich bod yn ymwybodol o'r cyhoeddusrwydd anffafriol yn y wasg leol at addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Brifddinas.

Yn ein tŷb ni, cafodd y sefyllfa ei chamdrin gan yr Awdurdod, gan iddynt adael i awyrgylch o ansicrwydd ac amcandybiaeth i ddatblygu ynglŷn â phosibiliadau safle y bedwaredd ysgol. Seiliwyd y ddamcaniaeth ar adroddiadau answyddogol, cododd sefyllfa o ddicter, gofid a gwrth-weithio ffyrnig gan wahanol grwpiau, oedd, am resymau amrywiol, am ymwrthod â chael yr Ysgol yn eu hardaloedd. Tra yr ydym yn deall y gwrthweithio, anelwn ein beirniadaeth yn gryf at y Cynghorwyr hynny a ymfflamychodd farn y cyhoedd, a hynny am resymau na wyddom ni.

Trwy'r cyfan, ceisiodd y Gymdeithas Rieni, tan yn ddiweddar, gadw allan o'r ddadl gyhoeddus a chydweithredu, yn lle hynny, gyda Gweithgor Cymraeg y Cyngor. Cymeradwyodd y Gweithgor hyn yn ddiweddar i adeiladu ysgol Gymdogaeth newydd yn ardal Y Rhath, ond ym mis Mawrth 1982 gwrthodwyd y gymeradwyaeth hon gan y Pwyllgor Addysg, a chymeradwywyd symud yr Ysgol i un o ddau safle posib yn Llanrhymni (er nad ydym ni fel rhieni, na neb arall, wedi derbyn gwybodaeth swyddogol o hyn). I DUD 4.

# Y CALENDR

Mai :

3, Llun, yn Theatr y Sherman, Côr Godre'r Garth a Trebor Edwards, 7.30 p.m. £2.

8, Sadwrn, rhwng 6 ag 8 o'r gloch yng Ngerddi Sophia, NOFIO NAWDD, Yr elw i'w rannu rhwng y Ganolfan, Heol Conwy ag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd a'r Cylch, 1985.

9, Sul, yn Theatr y Sherman, Gweu Babis a Cyn Cychwyn. 8 p.m., £2.20.

8-15, Gŵyl Feithrin. Manylion o unrhyw Ysgol Feithrin neu Avril Jones, Ffôn: Caerdydd 757514.

10, Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty'r Parc am 1 p.m. Prif Westai: Mr. Phylip Rosser.

16, Cymrodorion Caerdydd, Gwibdaith, dan ofal y Parch Ifor Rees.

Mai :

21, Gwener, Gwerthiant Dillad o Siop Gadwyn Enwog, Neuadd Bentref Pentyrch, 7 p.m., 40c (yn cynnwys coffi). Yr elw at Gronfa Dyfodol y Crwys.

26, Mercher, Cyngerdd gan Gantorion Creigiau yn Theatr Reardon Smith, 8 p.m. Mynediad: £1.50; 75c (Plant a Henoed). Yr elw at Gronfa Dyfodol y Crwys.

Mehefin :

19, Sadwrn, Gŵyl Ifan; Gorymdaith trwy Gaerdydd am 11 a.m. Cwrdd yn Nantgarw am 4 p.m. (Gwesty Dyffryn Ffrwd).

Mehefin :

26, Ffair Haf Glantaf

Mehefin :

7-9, Theatr y Sherman (yn yr Arena), Cwmni Sgwar 1 yn cyflwyno Diwedd y Saithdegau (Gareth Meils), 8 p.m., £2.

19, Ffair Haf Ysgol Melin Gruffydd, yn yr ysgol.

24-26, Y Sherman, Theatr Cymru i'r Plant yn cyflwyno Doctor Dewin. Y bwriad yw dod â hwiangerddi Cymraeg yn fyw ar lwyfan. Pnawn Iau: 1.30 p.m., £1.80; Gwener, 10 a.m. a 1.30, £1.80; Sadwrn, 2.30, £2.30

---

Cynhelir Sadwrn Siarad i ddysgwyr yr iaith yng Nghanolfan yr Urdd ar ddydd Sadwrn y 15fed o Fai, o 10 a.m. - 4 p.m. a'r gost fydd £2.50.

Os rydych chi'n nabod unrhyw ddysgwr, soniwch wrthyn nhw am y Sadwrn Siarad a gofynnwch iddyn nhw gysylltu â Miss Linda Wood, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Treganna, Caerdydd. (Ffôn: Caerdydd 36201), erbyn dechrau Mai.

*************************

Cymraes i ofalu am fabi o fis Gorffennaf/Awst ymlaen. Byddai angen byw gyda'r teulu yn ystod yr wythnos a chael y penwythnosau'n rhydd. Byddai profiad o drin babanod yn fantais ond nid yn angenrheidiol. Cyflog i'w drafod. Ffôn: Thomas, 891290.

*************************

*************************

CRONFA DYFODOL Y CRWYS

GWERTHIANT DILLAD O SIOP GADWYN ENWOG

yn NEUADD BENTREF PENTYRCH

nos Wener, 21 Mai, 7 p.m.

Mynediad: 40c (yn cynnwys coffi).

*************************

*************************

AR WERTH NEU I'W RENTU

Villa â Chelfi yn Ferndale, Y Rhondda Fach. Cynnwys y tŷ: 2 lolfa, cegin, cegin fach, 3 ystafell wely, ystafell ymolchi, 2 ystafell yn yr atic. Golygfa o'r mynydd a gardd o flaen y tŷ. Manylion pellach - Aberdâr 872295

*************************

CRONFA'R DINESYDD

Amgaeaf rodd o £ : i Gronfa'r Dinesydd.

Enw: ....................................

Cyfeiriad: ..............................

.........................................

Anfoner at Mr. Emrys Jarman, 198 Hillrise, Llanedeyrn, Caerdydd.

NEU, OS DYMUNECH, GELLWCH GYFRANNU I'R GRONFA TRWY ORCHYMYN BANC

ARCHEB BANC

At y Rheolwr ........................(Banc)

.................................(Cyfeiriad)

Dymunaf i chi dalu i Fanc Masnachol Cymru, 114-116 Heol y Santes Fair, Caerdydd i gyfrif PWYLLGOR RHEOLI Y DINESYDD, rhif cyfrif 40985012, ar unwaith, ac ar y dydd cyntaf o fis ......... bob blwyddyn wedi hynny oni ddiddymur yr archeb gennyf mewn ysgrifen y swm o ..............(mewn geiriau) £.....(mewn ffigurau).

Arwyddwyd: ..............................

Cyfeiriad: ..............................

Rhif ac enw'r Cyfrif ....................

Dylid anfon y ffurflen uchod at Mr. Emrys Jarman, Trysorydd Y Dinesydd, 198 Hill Rise, Llanedeyrn, yn hytrach na'i anfon at eich Banc.

# COLOFN
## Shân Emlyn

Does gen i ddim dewis am be i sôn amdano'r mis yma yn nag oes? Mae'r rhan o'r byd sydd yn 'y meddwl i mor amal wedi bod ym mhenawdau'r newyddion yn ddyddiol yn yr wythnosau diwetha 'ma. Erbyn yr ymddengys y llith hwn, dyn a ŵyr be fydd wedi digwydd. Fel y mae hi'n wybyddus - mae wythnos yn y byd gwleidyddol yn amser hir.

Nid wyf yn wleidydd, nac yn dymuno bod yn un. Ond y mae gen i farn, ac yn sicr mae gen i deimladau. Beth bynnag ydy agwedd wleidyddol Prydain (ac fel Cymraes teimlaf hi'n ddyletswydd bron i ymateb yn wahanol i'r agwedd honno) a'r Ariannin, mae 'na ystyriaethau dynol, synnwyr cyffredin a theimladau emosiynol i'w hystyried. I ddechrau fe ddylem fod yn ymwybodol bod 'na bropaganda o du Llywodraeth Prydain ac o du Llywodraeth Ariannin. Rhaid cofio hynny a chraffu wrth wrando ar yr hyn a glywn o safbwynt y ddwy lywodraeth.

'D'allai ddim peidio â meddwl am 'y mhobol yn y Wladfa bell. Rwyf wedi teimlo'n agos iawn atynt ers blynyddoedd, ac felly'n ymdrechu'n fwy na'r cyffredin efallai i ddeall eu safbwynt. Does gen i ddim amheuaeth o'r trafodaethau a ges i efo'r Gwladfawyr fis Tachwedd 'u bod nhw yn yr achos yma gant y cant y tu ôl i'w Llywodraeth. Mae'n nhw'n credu ac yn teimlo'n gry mai eiddo'r Ariannin yw'r Malvinas. Atgoffaf fy hun mai Archentwyr sy'n digwydd siarad Cymraeg ydy nhw, ond bod 'na gwlwm tynn rhyngddynt â ninnau wedi canrif a mwy.
Disgynyddion ymfudwyr o Brydain ydy Ynyswyr y Falklands, pam felly bod gen i fwy o gydymdeimlad â'r Ariannin? Rwy'n cydnabod mod i'n rhagfarnllyd. Gallaf ddeall pam bod yr ynyswyr am barhau i fyw ar yr ynys, a pharhau i gadw'u traddodiadau a'u hymlyniad â Phrydain. Ond awydd i gynnal Prydeindod ymerodraethol sydd ganddynt, a does gen i fawr o amynedd â hynny.

Dros ganrif a mwy y mae'r Gwladfawyr wedi llwyddo i fod yn deyrngar i Ariannin ac i barchu a charu'u gorffennol, gan gadw'r iaith, er yn denau, hyd heddiw.

Beth bynnag ydy'n safbwynt, dim ond un gwirionedd a saif. Pobol ydy pobol, a Llywodraeth ydy Llywodraeth. Llywodraethau sy'n penderfynu mynd i ryfel, a phobol sy'n diodda. Yn yr achos yma, a mae rhywun yn amau cymhellion y ddwy lywodraeth, petae hi'n mynd yn rhyfel, yr ynyswyr fel corff o bobol fyddai'n diodda fwya'. A phwy arall? Bechgyn Cymru yn saethu at fechgyn Ariannin ac at Wladfawyr o dras Cymraeg. Pobol o'r un cefndir o iaith yn saethu at 'i gilydd. Prin bod perchnogi clwt o dir diffaith saith mil o filltiroedd o Brydain yn cyfiawnhau'r fath alanastra. Teuluoedd yma a "draw draw tu hwnt i'r moroedd" fyddai'n diodda petae rhyfel yn digwydd. Ddeudai ddim mwy.

Tydi fu gynt yn casglu
        Cymru nghyd
Bydd gyda'i phlant sy'n
        alltud dros y byd;
Rho iddynt hedd lle bynnag
        byddo'u hynt,
A chysur gwiw yr hen
        gymdeithas gynt.



Mrs. Enid Jones Davies

"LLANWODD EI BYD A LLAWENYDD BYW"

Ergyd greulon oedd clywed am farwolaeth sydyn Mrs. Enid Jones Davies a'r genedl newydd ddathlu Dydd Gŵyl ei Nawddsant: y Bod Mawr fel pe bai'n tynnu ato un a wireddodd i raddau mor helaeth archiad Dewi - "Byddwch lawen, cedwch y ffydd a gwnewch y pethau bychain".

Ychydig yn awr sy'n sylweddoli mor fregus oedd Cymreictod Caerdydd pan ddaeth hi yn brifathrawes gyntaf yr Ysgol Gymraeg ym 1949. Mae'r ffaith mai dau yn unig o blant un o gapeli mwyaf Caerdydd oedd gallu dweud adnod yn yr heniaith yn tystio i ddiffyg hyder y Cymry i ddysgu'r heniaith i'w plant ac i'r tranc oedd ar y gorwel.

Serch hynny, agorwyd ysgol - er mai deunaw o blant a ddaeth o'r deg ar hugain a addawyd. Ar gyn lleied mentrodd Mrs. Jones Davies ei gyrfa, gan arloesi i gyflwyno i blant Caerdydd addysg freiniol yn eu mamiaith.

Ni phallodd ei ffydd am funud. Ei llais hi oedd yr unig gyfrwng - ail-ddweud, ail-ganu, annog, cymennu'n garedig - dyna'i ffordd. Roedd hi'n gynnyrch gwerin wâr y genedl Gymreig, yn llawn urddas. Cynyddodd gweithgaredd y capeli Cymraeg: daethant yn fyw eto â sŵn plant. Nid yw hyn wedi digwydd ymhob ardal yn sgil twf yr ysgolion Cymraeg - ac mae hynny'n golled fawr.

Wrth feddwl am Mrs. Jones Davies, gwelwn fod angen menter, mawredd a gweledigaeth i wneud "y pethau bychain" ac angen ffydd a llawenydd i gadw'r weledigaeth yn bur a'r ysbryd yn iraidd.

Mawr oedd ein braint i'w chael yn athrawes arnom. Bu fel mam inni yn yr ysgol. Hir iawn fydd y cof amdani.

---

Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn Mehefin at Mrs. N. Couch, 2, Crystal Glen, Y Mynydd Bychan, Caerdydd (Tel. 753625) erbyn Mai 21ain.

# GWYL IFAN MEHEFIN 19, 1982

Wn i ddim o ble y daeth y syniad o gynnal gŵyl o ddawnsio gwerin yng nghyffiniau Caerdydd. Mae'n siwr mae rhyw adwaith i Ŵyl Haf Cymdeithas Ddawns Werin Cymru ymadael â'r ddinas oedd y prociad terfynnol achos bu sôn am y peth am flynyddoedd ymysg aelodau Cwmni Dawns Werin yr Aelwyd. Beth bynnag, syniad campus oedd e, a phwy bynnag biau'r syniad gwreiddiol, diolch yn fawr.

Penderfynwyd ar y dyddiad trwy ryfedd wyrth. Yn ddigon hwyr yn y flwyddyn i gael tywydd ffafriol ac yn ddigon cynnar i beidio â gwrthdaro â gŵyl y Gymdeithas. Penderfynwyd ar benwythnos y 25ain o Fehefin y tro cynta, heb yn iawn sylweddoli'r arwyddocâd. Y cam nesa, enw'r Ŵyl, ac wrth gwrs gan ein bod yn barod wedi penderfynnu dawnsio yn Nantgarw, syrthiodd popeth i'w le. Pam Nantgarw, a beth yw arwyddocâd Gŵyl Ifan? Yn Nantgarw y ganwyd Mrs. Margretta Thomas, yr hen fenyw fach yna, na ches i mo'r fraint o'i chwrdd, a gofiodd yr holl ddawnsfeydd a ddaw yn yr hyn a elwir yn Ddawnsfeydd Nantgarw. Dyma nhw: Rali Twm Shôn, Dawns y Pelau, Ffair Caerffili, Ceiliog y Rhedyn, Gŵyl Ifan, Dawns Blodau, Y Gaseg Eira, Morfa Rhuddlan a Dawns y Marchog.

Yn ôl yr hanes roedd pentrefwyr yr ardal, Groeswen, Nantgarw a Phentyrch, yn dawnsio'r dawnsfeydd yma ar wahanol achlysuron drwy'r haf. Ar ôl penderfynnu ar y dydd-iad ac wedyn sylweddoli bod Gŵyl Ifan yn agos, y peth hawsaf oedd uno'r ddau. I'r rhai sy heb ddeall Ioan Fedyddiwr yw, yn ôl Mrs. Alice Williams, nawdd sant dawnsio gwerin, ys gwn i sut siol oedd gyda Salome? Hefyd syrth ei ddydd penodedig ar Fehefin 23ain.

Erbyn hyn mae rhyw 250 o ddawnswyr yn ymgyrchu at Nantgarw i ddathlu'r Ŵyl. Ers ei chychwyn y mae wedi tyfu'n un o wyliau pwysicaf y calendr dawnsio yng Nghymru ac eleni unwaith eto gwelir yr hen ffigurau ar hyd strydoedd Nantgarw a'r Groeswen a chilfachau Bro Morgannwg.

Bydd y dydd yn dechrau am 11.00 y bore gyda gorymdaith ar hyd strydoedd Caerdydd. Wedyn bydd pawb yn rhannu i deithio o Gaerdydd i Nantgarw gan aros i ddawnsio ar y ffordd. Ar ôl cyrraedd y pentre, tua 4.00 y pnawn, bydd pawb yn ymuno i gyd-ddawnsio yng Ngwesty'r Dyffryn Ffrwd, yn y fan lle cofiodd Mrs. Margretta Thomas weld dawnswyr y ganrif ddiwethaf yn 'dawnsio dan y deri'. Yr unig obaith nawr yw am hindda ac i haul Mehefin wenu ar ein hymdrechion.

Ar hyfryd ddydd Gŵyl
Ifan
Daw'r haul a'i wen i'r
gyrchfan.
Lle cwrddyd ienctyd
ystwyth llon,
Yn don o symyd diddan.

Manylion pellach: Mrs. Helen Stickler, 57, Heol Thornhill, Caerdydd. (Ffôn: 753179).

Rhodri Jones.




---

O DUD. 1

Pwysleisiwn anaddasrwydd y safleoedd yn Llanrhymni am y rhesymau canlynol :

1. Maent ar ffiniau dalgylch yr Ysgol, ac yn gyfleus i 17 o'r plant presennol yn unig. Ceisiwyd, yn aflwyddiannus, dair o weithiau i sefydlu Ysgol Feithrin yno.
2. Mae'r ddwy ysgol arbennig mewn safleoedd anodd i'w gyrraedd, a bydd yn angenrheidiol i gael cludiant costus i tua 130 o blant ar hyn o bryd.
3. Byddai symudiad o'r fath yn sicr o godi gwrthdeimlad a gwrthweithio gan drigolion yr ardal pan fydd darpariath addysgol eu plant yn cael ei dryllio.

Fodd bynnag, anwybyddwyd rhesymeg ein dadleuon ni gan rai cynghorwyr. Gwell ganddynt oedd ein cyhuddo o fod eiddo snobyddiaeth cymdeithasol, ac ein bod yn ragfarnllyd o'r ysgolion yn Llanrhymni. Gwelwyd un datganiad digywilydd gan y Gynghor-wraig Vita Jones, yn ei chyhuddiad trwy'r wasg ohonom fel rhieni o fod yn wrthgymdeithasol, yn croeshoelio ein plant trwy ddinistrio unrhyw gydymdeimlad at addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn Ne Morgannwg. Erfynniwn arnoch i ymuno â ni i brofi ei chamsyniad.

Unwaith eto, pwysleisiwn nad ydym yn gofyn am unrhyw freintiau arbennig - dim ond ysgol yn ein cymdogaeth - fel rhieni eraill yn y sir.

# DINESYDD Y PLANT

Mae'r geiriau yma ar goll o fewn y patrwm o lythrennau. Chwiliwch amdanynt, a rhowch linell drwy bob gair sy'n dod i'r amlwg.

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| m | o | r | c | a | r | b | w | c | e | d |
| e | t | y | w | o | d | a | s | rh | a | w |
| c | r | n | ch | w | a | r | a | e | a | g |
| r | a | y | h | w | r | e | ch | d | r | w |
| a | e | s | w | s | e | c | a | e | w | y |
| g | th | a | y | d | w | r | a | g | e | m |
| e | c | y | l | ch | e | a | th | e | f | o |
| n | n | o | f | i | o | n | a | i | d | n |
| c | a | n | w | b | w | c | e | d | n | t |


hwyl
chwarae
rhedeg
chwerthin
hwre
cwch
car
canw
nofio
gwymon
cae
bwced
ser
sach

rhaw
dŵr
cragen
cranc
cylch
traeth
sw
wy
tywod
ynys
sych
naid
gêm

## CYSTADLEUAETH


Cynllunio bathodyn Dinesydd y Plant"
Gwobr i'r enillydd.
Defnyddiwch siap y 'D' o'r bathodyn yma.







Anfonwch eich cynigion gyda'ch enw a'ch cyfeiriad at 8 Dorchester Ave.
Penylon,
CAERDYDD.


Anfonwch eich jôcs atom.
Anfonwch eich sgwigl. atom.



Sawl triongl?

Sgwigl





Sawl triongl?

# BYD Y BÊL

## BALCHDER YSGOL MEWN 'CAP' ARALL.

Bydd Philip Hope wedi tynnu'r crys coch amdano ar yr ail o Ebrill eleni, pan oedd yn cynrychioli Ysgolion Uwchradd Cymru Dan 15eg oed, yn erbyn Ysgolion yr Alban.





Tim Peldroed Canolfan yr Urdd: (Cefn) Ray, Cen, Medwyn, Derwyn, Eifion, Martin, Bags, Alun Meirion; (Blaen) Ken, Melvin, Iwan, Huw, Wyn.

## PONTCANNA CYN Y PONTIFF

Mae'r Pasg drosodd erbyn hyn a'r tymor peldroed yn prysur dynnu tua'i derfyn - yn wir os aiff ymlaen lawer hwy mi fyddwn yn chwarae ar gaeau Pontcanna gyda'r Pontiff a'i 300,000 o 'fans' disgwyliedig yn ein gwylio. Cofiwch chi efallai y byddai mymryn o gymorth ac ysbrydoliaeth o du'r Fatican yn llesol tu hwnt - mae popeth arall gan gynnwys dogn helaeth o ffisig Bragdy Brains wedi methu'n llwyr i gyffroi hyd yn oed bodiau'r traed i ymdrech deg. Fuaswn i ddim yn dweud fod pethau wedi bod yn ymylu ar 'argyfwng' arnom ni, ond mewn sefyllfa o'r fath byddai llynges Prydain wedi hen hwylio am Ynysoedd y Falklands a chwythu pob cwch, llong a physgodyn o'r môr heb feddwl ddwywaith am y canlyniadau.

Hanner y broblem ydi hyder, yr hanner arall ydi hunan-hyder. Ond pwy ydw i i gwyno, a be ydi maint fy mhroblem i pan mae sawl clwb proffesiynol yn byw o ddydd i ddydd ar raff Meinach na gwe'r pry cop mwyaf celfydd sy'n gweithio yn siop yr 'Emanuels', a phan mae hyd yn oed Syr Freddie Laker yn fethdalwr o dros £200 miliwn. Buasai gên yr hen Jimmy Hill wedi cyrraedd gwaelod-ion y seler ers hydoedd, a'i olwg yn ddigon i godi iselder ysbryd ar unrhyw un a'i gwyliai.

A beth ydi'r ateb - yn wir oes yna ateb - wn i ddim - ond gallaf eich sicrhau y bydd Clwb Cymric yn rhygnu ymlaen y tymor nesaf hefyd yn ceisio darganfod y golau yng ngwaelod y pydew.

Ymlaen ynta at fymryn o hanes y cicio ar y maes, hanes sy'n ein tywys yn ôl i fis Chwefror i gychwyn y tro yma. Ar Chwefror 20fed gêm ym Mharc Splott yn erbyn yr hen elyn Bridgend Street.

Tydi'r gêm yma byth yn un hawdd ond cafwyd perfform-iad teg gan bob aelod o'r tîm ac yn wir llwyddwyd i gael y blaen ynghanol yr ail hanner, Rhodri yn rhwydo. Yn anffodus, o fewn munud i'r chwiban olaf, penderfynnodd Gareth afael yn y bel o fewn y blwch cosbi, a daeth y gwrth-wynebwyr yn gyfartal o'r smotyn gwyn. Un yr un felly ar y terfyn.

Mymryn o chwalfa oedd hi yr wythnos ganlynol yn erbyn Cyn-ddisgyblion Fitzalan. Chwarae yn galonogol i gychwyn ac yn haeddiannol fynd ar y blaen pan sgoriodd Len yn yr hanner cyntaf, ond wedyn, siop siafins - pawb yn beio ei gilydd am bob dim a dim byd, ac yn y cyfamser, y gwrthwynebwyr yn rhwydo dair gwaith a'r sgôr derfynnol yn 3 i 1 iddynt hwy.

Gorfu'r glaw ar Fawrth 6ed, ac yna ar Fawrth 13eg, gêm yn erbyn Splott Albion - tîm heb ennill llawer o'u gemau ond a oedd yn arbenigo mewn gemau cyf-artal. Cyfartal oedd y sgôr ar ddiwedd y gêm hon hefyd, un yr un, a Len unwaith eto yn rhwydo.

Daeth Mawrth 20fed a gwell gobaith yn ei sgil gyda'r gêm yn erbyn tîm papur Wiggins Teape. Dim sgôr ar yr egwyl ond cafwyd trawsnewidiad llwyr yn yr ail hanner pan adawodd y capten y maes wedi ei anafu. Yn ei le daeth un o'r criw ifanc am ei gêm gyntaf yn lliwiau'r tîm cyntaf. Erbyn diwedd y gêm roedd y chwaraewr medrus hwn, Huw Pritchard, wedi sgorio tair gôl fendigedig, a buddugoliaet gyntaf 1982 wedi ei selio i'r Cymric o 3 i 1.

Cafwyd ail gêm y tymor yn erbyn St. Patricks ar Fawrth 27ain, a chafwyd perfformiad gwell o lawer



gan bawb wedi'r fuddugoliaeth yr wythnos cynt. Oherwydd anaf i Dewi, roedd Der yn gwneud ei ail ymddangosiad yn y gôl i'r tîm cyntaf a chafwyd chwarae arbennig ganddo (braf oedd gweld golgeidwad yn gallu cicio pel dros hanner ffordd unwaith yn rhagor!). Gêm gyfartal, un yr un, a gafwyd ar y terfyn, a Rhodri yn sgorio.

Nos Iau, Ebrill 1af, cafwyd gêm yn erbyn y Rastafarians, sef Butetown; y gwŷr gyda lliw haul y Caribî yn drwch ar eu hwynebau, a'u gwalltiau yn bigau drain o dan eu capiau gweu amryliw. Roedd hon yn gêm galed hefyd, ond er i'r duon fynd ar y blaen yn yr hanner cyntaf, y Cymric a orfu yn y diwedd o ddwy gôl i un, Rhodri ac Eynon yn rhwydo i selio'r fuddugoliaeth. Pan ddaeth y chwiban olaf, a'r gwyll yn cau amdanom, doedd ond gwyn y llygaid ac ifori'r dannedd yn arwydd o bresenoldeb ein gwrthwynebwyr.

Pnawn Sadwrn, Ebrill 3ydd, gêm ar gae anwastad Gwaelod y Garth yn erbyn y tîm lleol. Gêm y dylem fod wedi ei hennill yn erbyn deg aelod o dîm y Gwaelod, ond un yr un oedd y sgôr terfynnol a Rhodri yn sgorio yn yr hanner cyntaf.

Ymlaen wedyn i nos Lun, Ebrill 5ed, a gêm yn erbyn Tongwynlais ym Mhontcanna. Gwrthwynebwyr cryf unwaith yn rhagor ond cafwyd perfformiad penigamp gan y Cymric i sicrhau buddugoliaeth haeddiannol o dair gôl i ddim gyda Rhodri (2) a Martin yn sgorio'r goliau tyngedfennol.
Chwaraewyd gêm arall ar nos Iau, Ebrill 8fed, yn erbyn Unigate unwaith yn rhagor, a chanlyniad tebyg i'r un wythnos ynghynt a gafwyd y tro yma eto er nad ydi'r sgôr o dair gôl i ddim yn ein herbyn yn gwneud tegwch â'r ymdrech a wnaethpwyd gan bawb. (Mae'n werth cofnodi nad oedd Unigate wedi colli yr un o'u pedair gêm ar bymtheg a chwaraewyd ganddynt).

# BYD APÊL



Mr. Gareth Davies, Capten Tîm Rygbi Cymru, yn lansio'r Cynllun Cyfamodi Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd a'r Cylch 1985, yn Ysgol Glantaf ar Fawrth 31. Cofiwch anfon am ffurflenni cyfamodi oddi wrth Mr. Glyn Jones, 30, Chargot Road, Llandaf, Caerdydd. (Rhif ffôn: 568800).

Bu pethau yn llawer ysgafnach ar yr ail dîm yn ystod y misoedd diwethaf yma, a chafwyd tair gêm yn ystod mis Mawrth. Buddugoliaeth gampus yn erbyn Wells United o ddwy gôl i ddim, Martin a Cen Cartŵn yn sgorio, ac Eifion yn arbed cic gosb o'r smotyn gwyn. Gêm gyfartal gyffrous yn erbyn Coleg Llandaf, pedair gôl yr un gyda Martin, Cen(eto) Gwyn a Ken Passmore yn rhwydo, ac yna colli yn erbyn BTD Athletic o bedair gôl i un, gyda Huw Pritchard yn sgorio'r unig gôl.

Croeso i Ken Massmore i'n plith gyda llaw, caffaeliad pwysig i glwb y 'deg ar hugain a throsodd'.

Beth sydd yn weddill tybed - tair gêm gan y tîm cyntaf a dwy gan yr ail dîm - rhaid fydd sicrhau mwy o bwyntiau o'r gemau hyn i wneud yn sicr o aros yn yr Adrannau presennol - rhaid wrth ymdrech deg.


Yn olaf, llongyfarchiadau i Rob a Meinir Sanger ar enedigaeth mab ar Ebrill 7fed - aelod newydd arall i'r Cymric?

Rhodri Gwyn Jones.



Tim Yr Aelwyd a chwaraeodd yng nghystadleuaeth Pantyfedwen yn ddiweddar: Garmon, Huw, Stewart, Eifion, John, Iwan, Marc; Rhys, Aled, Hywel, Huw, Melvin, Gareth

## CANOLFAN GYMRAEG GLANTAF




Gyda thyfiant yn y nifer o bobl sydd yn dysgu a siarad Cymraeg yn y ddinas a'r ardaloedd cyfagos, mae'n amlwg bellach bod angen mwy o ddarpariaeth gymdeithasol ar eu cyfer. Mae'r datblygiadau ynglŷn â sefydlu Clwb Cymraeg eisoes wedi eu crybwyll yng ngholofnau'r papur hwn ac mae llwyddiant yr ymgyrch yn adlewyrchu'r galw sydd am ganolfan o'r math.

Eisoes mae'r Pwyllgor Addysg yn ymwybodol o'r tueddiadau hyn a'r galw sydd am weithgareddau Cymraeg, ac mae amryw o ddosbarthiadau nos wedi eu cynnal yn Radur a Glantaf. Mae dosbarthiadau garddio, coginio a chadw'n heini (i ddynion ac i ferched) i gyd wedi eu sefydlu'n llwyddiannus. Ond o fis Medi ymlaen, gyda chymorth ariannol a chefnogaeth y Swyddfa Gymreig, mae'r Awdurdod am ehangu ar eu darpariaeth drwy gynnig llawer mwy o ddosbarthiadau i'w dysgu trwy'r Gymraeg yng Nghanolfan Glantaf. Bwriedir, ar hyn o bryd, gynnig y rhaglen a amlinellir yma. Dyma restr o'r pynciau yr ydym yn meddwl eu cynnig fis Medi 1982 :

Cadw'n Heini (Merched)
Cadw'n Heini (Dynion)
Yoga
Ffrangeg
Cymraeg Lefel O
Cymraeg Lefel A
Cymraeg i ddysgwyr
Cymraeg Llafar a Llyfr (Gramadeg ac ymgom)
Dawns Greadigol
Dawnsio Gwerin
Hanes Lleol
Gwaith Llaw
Coginio
Gwaith Coed a Metel
Gofalu ar ôl y car
Cwrs hyfforddi Athrawon Meithrin

Oherwydd fod amryw o adnoddau ar gael i'w defnyddio yng Nglantaf, ystafelloedd braf, neuaddau mawr, caeau gwych a dwy gampfa er enghraifft, bwriedir gosod y rhain i gymdeithasau neu glybiau Cymraeg i'w defnyddio. Felly os oes cangen o Ferched y Wawr neu dîm rygbi neu beldroed, neu bwyllgor neu ddau, am le i gyfarfod a naws Gymraeg yno - dyma fo.

Mae llwyddiant y Ganolfan hon yn hollol ddibynnol ar eich ymateb chi. Felly os oes unrhyw un am wybodaeth bellach, neu sydd a syniad gwreiddiol i'w gynnig, cwblhewch y ffurflen isod a'i hanfon yn ôl at :

Mrs. P.A. Evans,
Canolfan Addysg i
Oedolion,
Heol Isaf,
Radur. CF4 8XG

---

A fyddwch cystal a chwblhau y rhannau isod a dychwelyd y cerdyn i'r cyfeiriad uchod. Fe fydd gwobr o £10 i berchennog y cerdyn lwcus.

Mae gennyf ddiddordeb mewn ymuno â dosbarth yn

..........................

Y noson mwyaf hwylus i gynnal y dosbarth fydd -

Nos Lun     Nos Fercher

Syniadau am Ddosbarthiadau eraill :

1. ......................
2. ......................
3. ......................

MAE GENNYF DDIDDORDEB MEWN DYSGU DOSBARTH TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG :

Pwnc ....................

Enw .....................

Cyfeiriad ...............

.........................

Rhif ffôn ...............

### KIDDLAWENHAU

Llongyfarchiadau i Carol a Ioan Kidd ar enedigaeth eu mab bychan, Dafydd.

DYMUNA PWYLLGOR Y DINESYDD DDIOLCH O GALON I MICHAEL JONES AM EI WASANAETH GWERTHFAWR FEL CADEIRYDD DROS GYFNOD HELAETH.

# COCH, GWIN A GWYRDD

"Wel Quentin bach, gawsoch chi noson dda?"

"Do Myfanwy, Noson Ffrangeg yng Nghanolfan yr Urdd".

"Codi arian at Nantes Gwrtheyrn I suppose, pobol o Ruebina, French cuisine, French bread, French fries, oedd yna ddipyn o goesau llyffantod yn hopian o gwmpas y lle yn eu ffrogs gorau tybed?"

"Oedd Myfanwy - a gwin". "What Quentin, did you say gwin, alcoholic beverage yn yr Urdd Centre, cadarnle ein diwylliant, tabernacl y ffydd - would you believe it? I suppose fe fydd Rosé a Franc yn galw hyn yn sour grapes ond na Quentin nid grawnffrwyth siriol o gwbwl. Mae'n rhaid inni sefyll ar ein traed, hynny ohonom ar ôl sy'n medru, i amddiffyn ein values, ein gweithredoedd Quentin. This wont do at all, dim o gwbwl".

"Ond Myfanwy, roedd yna un gwin sych, byrlymus wedi ei ysbrydoli gan gân serch.....

"Nonsense Quentin chlywais i erioed y fath nonsense. Beth oedd ei enw felly?"

"Myfanwy, Myfanwy".

"Don't repeat yourself Quentin ac os oes yn rhaid ichi wneud hynny dywedwch, "Pardon".





**GWESTY LLETY CYMRO**

143 HEOL YR EGLWYS GADEIRIOL
CAERDYDD. FFÔN 399659

**GWELY A BRECWAST**
**BWYD A GWIN DA**

TRWYDDED PRESWYL

## TRYSTAN AC ESYLLT - yr ochr gerddorol.

Profiad newydd i fi oedd blasu un o gynhyrchiadau Cwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd fel aelod o'r gynulleidfa - bod ar ochr yma y camera am unwaith, fel petai. Tybed beth fuasai'r Hen Wagner wedi meddwl am y fersiwn hon o'r chwedl Geltaidd? Ysgytwodd ei opera ef Tristan und Isolde y byd cerddorol tua diwedd y ganrif ddiwethaf, ac un peth diddorol am y gwaith yw nad oes rhaid wrth yr iaith Almaeneg i ddeall braslun y stori. Gyda fersiwn Emyr Edwards o'r chwedl, nid ychwanegodd geirio cwbl eglur yr unawdwyr at fy neallusrwydd i o'r hyn oedd yn digwydd ar y llwyfan. Cefais yr argraff felly i'r gerddoriaeth ddal sylw'r gynulleidfa yn fwy na chymlethdodau sumbolaidd y plot.

Bid hynny a fo; yn ogystal â geirio'n berffaith, meddai pob unawdydd ar lais bendigedig. Nid oedd geirio'r corws cystal (dyna pam imi golli rhediad y stori efallai?) ond serch hynny, canwyd pob cytgan gydag argyhoeddiad a grymusder ysbryd. Rwyn siŵr taw prinder amser ymarfer yn unig esgorodd ar ormodedd o ganu unsain a chyn lleied o ganu mewn tri neu bedwar llais.

Cyfrwng anodd yw opera roc. Lle does dim deialog, a lle disgwylir i'r gerddoriaeth yn unig gynnal ein sylw, rhaid i'r cyfansoddwr gyflwyno amrywiaeth ddyfeisgar o gerddoriaeth i gynnal diddordeb y gynulleidfa. Roedd dechrau Trystan ac Esyllt yn argoeli'n dda: caneuon roc, ffync ac araf. Ond wrth i'r perfformiad fynd rhagddo, teimlais y gellid gosod bron pob cân i un o'r categoriau hyn. O ganlyniad, roeddwn yn ysu erbyn y diwedd am glywed cân mewn tempo gwahanol a mwy cyfoes, fel disgo neu rege; ac roeddwn wedi blino ar glywed pob cân araf/ serch yn yr un tempo. Dylid wedi cy nwys adroddgan (yn enwedig yn y mannau hynny lle mae geiriau'r plot yn hollbwysig), canu digyfeiliant, a chyfeilio di-ganu fel a gafwyd tua diwedd Rhan 1, lle roedd yr alaw (yn cael ei chanu'n wych ar y sax) yn dweud y cyfan wrthym am deimladau'r Titanic Duo. Melys moes mwy.....

Yn y perfformiad glywais i, roedd y cydbwysedd rhwng y canu a'r band yn berffaith ar hyd yr amser - pob clod felly i'r cymysgwyr sain. A phob clod i'r band hefyd ar gyweirdeb a sensitifrwydd ei berfformiad, er y buaswn wedi hoffi mwy o amrywiaeth yn y gwead. Roedd tuedd i bawb gyfeilio pob cân, yn lle arbrofi o dro i dro gyda chyfuniadau llai o offerynnau. Tro yn y gwt oedd meicio'r llinynnau, oherwydd fe'u clywyd yn glir a bendigedig uwchben yr offerynnau trydanol eraill - ychwanegwyd naws ac ansawdd arbennig at y gwead sain.

Roedd dod ag un gân i ben, oedi, a dechrau cân arall yn bilsen fawr i'w llyncu erbyn y diwedd; ond er yr agwedd slo-slo-cwic-cwic-slo hon ar ddilyniant y caneuon, roeddent fel creadigaethau cerddorol o safon uchel dros ben. Pob clod i Euros Rhys Evans felly ar gysondeb safon pob cân - tipyn o gamp. Bron y gellir dweud i'r caneuon fod yn rhy dda! - fel nad oedd yn hawdd cofio'r alawon unigol, am y dilynwyd un gân dda gan gân arall lawn cystal. Roedd i'r gerddoriaeth gyfoeth a dyfnder ac argyhoeddiad. Llongyfarchiadau Euros.

Ac ar yr union bwynt yma, gwych o beth oedd gweld bod y gerddoriaeth ar werth yn ystod y perfformiad. Dyma'r union ffordd i ddiwallu dyhead y gynulleidfa i ail-flasu'r caneuon drostynt eu hunain, neu i wneud dilyn record yn haws, oherwydd roedd cerddoriaeth Trystan ac Esyllt gystal ag sydd eisoes ar ddisg yn Gymraeg. Rhagorol, bawb.

Dulais Rhys.

## CRONFA DATBLYGU HEOL Y CRWYS

.........

Cynhelir Cyngerdd gan Gantorion Creigiau yn Theatr Reardon Smith, nos Fercher, 26 Mai,1982 am 8 o'r gloch. Bydd yr elw yn mynd at y Gronfa uchod. Pris y tocynnau fydd: Oedolion, £1.50;

## TRYSTAN AC ESYLLT

Mae Cwmni Theatr Ieuenctid Urdd Gobaith Cymru wedi dewis cyflwyno hanes Trystan ac Esyllt fel opera roc eleni. Mae'r dewis braidd yn rhyfedd, oherwydd mae'n siwr nad oedd mwy na thraean o'r gynulleidfa yn ystod taith y Cwmni drwy Gymru yn gwybod hanes trist y ddau gariad ymlaen llaw. Oherwydd natur opera roc hefyd, mae'n siwr fod rhai eraill tebyg i fi wedi bod ar goll am o leiaf yr hanner awr cyntaf.

Roedd yr hanes yn gwibio'n gyflym o Gernyw i Iwerddon a Llydaw wrth ddilyn hynt a helynt Trystan (Geraint Cynan) drwy wahanol anturiaethau yn ceisio llaw Esyllt, tywysoges Iwerddon. Ond roedd yn rhaid canolbwyntio oherwydd, unwaith y collwyd ystyr pennill neu ddau roedd pwrpas y gân yn mynd i'r gwellt.

Nid bod unrhyw fai ar y geiriau na'r gerddoriaeth. Roedd barddoniaeth Emyr Edwards a cherddoriaeth wefreiddiol Euros Rhys Evans yn dod drosodd yn glir. Rhaid yma clodfori'r band a oedd cystal os nad gwell na'r bandiau sy'n mynychu'r "Top Twenty" yn Lloegr.

Yn anffodus, tuedd cynhyrchion cerddorol amatur yw castio yn ôl y llais, gyda'r sawl sy â'r llais cryfa yn cael y rhan orau. Ond yn y cynhyrchiad hwn roedd actio da a lleisiau gwych. Mae dyfodol canu roc yng Nghymru yn ddiogel. Hoffais yn fawr Esyllt (Sian Lloyd James), Margodo (Stephen Parry) a Brangwyn (Mari Emlyn Edwards).

Mae'n bechod, mi wn, i feirniadu amaturiaid, ond yr unig fai 'roedd Trystan ac Esyllt yn euog ohono oedd undonedd yr actio a'r dawnsio yn ystod y caneuon araf. Maldwyn Pate, y dawnsiwr a'r coreograffydd proffesiynol o'r Barri oedd wedi ymgymryd â'r gwaith symud. 'Roedd cynnwrf y golygfeydd gyda'r corws yn anffodus yn diflannu yn ystod y caneuon tawel.

Ar ôl yr holl waith ac ymdrech gobeithio y bydd rhywbeth parhaol yn dod o'r opera.

Gwenda Richards.

'Nid da rhy o ddim' meddem yng nghanol yr eira mawr. Ond ni ellir bod yn siwr o wirionedd yr hen air bellach oherwydd yn ystod y cyfnod caeth aeth Alun Rowlands ati i farddoni. Mae'n dda gennym gyhoeddi y ddwy soned hyn o'i eiddo y mis hwn. Brodor o Ros Cefn Hir ym Môn yw Alun. Wedi bod wrth draed Doctor Alun ym Mangor bu'n Agronomydd gyda'r Weinyddiaeth Amaeth, yn arbenigwr o gynghorydd ar wella ansawdd tir glas, hyd nes ymddeol yn ddiweddar.Mae'n byw yng Nghaerdydd ers 1966 ac mae'n un o ffyddloniaid Capel y Crwys. Diolch yn fawr iddo am ei gefnogaeth i'r golofn.

Myfyrdod yn ystod eira Ionawr 1982

MAN GWYN

Ar gerdyn 'Dolig onid darlun tlws
Fu'r fantell wen dymhorol ar y bryn,
Y Robin Goch yn dawnsio ger y drws
A sglefrio'r plant yn gloywi dŵr y llyn?
Ond heddiw, yn yr heth go iawn, mae'n gwlad
Dan glo, a Natur chwyrn yn feistres lawn.
Dros nos diddymwyd ein cyfforddus stad;
Daeth tro ar fyd cyn inni ddeffro'n iawn.

I wlad ar gau gan luwch sy'n llenwi'r llawr
'Does gan dechnoleg 'run atebiad chwim.
Cynhaliaeth corff yw'r holl flaenoriaeth 'nawr,
'Dyw'r moethus drugareddau'n cyfrif dim.
Ond diolch am gael gweld cymdogaeth dda
Yn parod cario'r baich ar lwybrau'r iâ.

Y CHWYLDRO

Bu ar ei daith yn dawel gyda'r hwyr
Ac ôl ei draed yn wrymiau hyd y stryd,
Ond drannoeth 'roedd y dre yng nghladd yn llwyr
O'i lapio'n dynn o dan ei amdo'n fud;
Trefniadau dynion wedi drysu'n lân,
Eu holl gerbydau'n draphlith dan y lluwch,
A phanig wedi cydio mawr a mân
Wrth weld yr eira'n codi'n uwch ac uwch.

Buan y gwelwyd siopau bach yn llawn,
Aeth gŵr yr arad' eira'n frenin bro,
A th'wysog oedd yr hwn a feddai'r ddawn
I godi truan wedi trwstan dro.
Mor eglur yw y gwir am hyn o fyd
Mai ar ein gilydd 'rym ni'n byw i gyd.

Alun Rowlands, Llandaf.

Diolch yn fawr hefyd am gefnogaeth yr hynafgwr mwyn Llywelyn Morgan, y cefais yr englyn hwn ganddo:

Y LLOER

Aeres yr ucheldérau a guddia
  Dan gaddug cymylau.
Fel lleian foel ei lliwiau,
Wyneb cu dan goban cau.

Llewelyn Morgan, Y Felin Wen.

Cofiwch, chwi feirdd, caeth a rhydd, am y golofn. Anfonwch eich cerddi, neu unrhyw sylwadau, ataf yn 'Penmaen', 31, Heol Don, Yr Eglwys Newydd.

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau Deddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol tuag at y rhifyn hwn.

Llongyfarchiadau i Carolyn a Geraint Tudur ar enedigaeth eu mab bach, Llywelyn, brawd i Dafydd.

Rhodri Jones, aelod blaenllaw o Gwmni Drama Aelwyd Caerdydd, ddaeth atom i'n cyfarfod diwethaf i roi inni dipyn o hanes a chefndir dawnsio gwerin yng Nghymru. Soniodd hefyd am yr adfywiad sydd wedi bod yn ddiweddar mewn dawnsio gwerin. Dangosodd inni ffilmiau o ddawnswyr gwerin yn uchafbwynt eu blwyddyn sef Gŵyl Ifan.

Mae Rhodri wedi gwneud llawer o waith ymchwil yn y maes yma a'r hyn oedd yn ddiddorol i ni oedd ei glywed yn enwi Nantgarw fel lle ag iddo ei gasgliad arbennig ei hun o ddawnsfeydd a diolch i Margaretta Thomas (mam Dr. Ceinwen Thomas) am ei help yn cofnodi rhai o'r dawnsfeydd hyn.

Dawnsfeydd ffeiriau oedd y rhan fwyaf o'r dawnsfeydd bryd hynny ond yr hyn barodd syndod i mi oedd mai dawnswyr proffesiynol oedd yn perfformio yn y ffeiriau gan amlaf, a gwisgent wisgoedd arbennig ar gyfer y gwahanol ddawnsfeydd, a finnau wedi meddwl y byddai ein cyndadau a'n neiniau yn ffurfio cylch destlus, yn breichio i'r chwith a'r dde a gwneud ffigwr wyth yn ddidrafferth ac yn dechrau meddwl fy mod wedi colli rhywbeth cynhenid dros yr oesau. Mi fyddaf yn teimlo'n dipyn esmwythach fy meddwl y tro nesaf yr â i i Dwmpath Dawns a sathru cyrn yr amaturiaid eraill.

Bu curo dwylo brwd yn ystod y cyfarfod i fiwsig nwyfus y ddawns werin ac ar y diwedd i Rhodri am noson ddifyr iawn.

Diolchwyd iddo gan Miss Eiry Humphries a gobeithiwn y daw atom eto a byddwn yn barod am dwmpath!

Catherine Jobbins.

# LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Miss Linda Wood, Pennaeth yr Adran Gymraeg Ysgol Cathays, ar ei dyweddiad â Mr. Alun Thomas sy'n gweithio gyda'r B.B.C. yn Llandaf. Byddant yn priodi yng Nghapel Heol y Crwys ym mis Gorffennaf.

# GAIR GAN EIN CADEIRYDD

Bûm ar hyd y blynyddoedd yn ddarllenydd cyson o'r DINESYDD, ac ni fedrwn lai nag edmygu o hirbell ymroddiad y gweithwyr yn y winllan. A minnau'n byw dros Glawdd Offa wedi bod yn ddinesydd yn y 50au a'r 60au, chwerwach-felysach fyth oedd y newyddion oddi cartre. Ac edrych yn ôl, ni allaf ond addef cydwybod am fethu â bwrw'm hysgwydd dan y wedd, fel petae, ac anfon llith o bryd i'w gilydd i gefnogi'r achos gartre.

Ryw flwyddyn yn ôl, dyma gael tŷ eto yn y Brifddinas i symud pabell iddo wedi mwy na phymtheng mlynedd i ffwrdd. Ansefydlogrwydd digon simsan yw'r profiad o ddychwelyd i'r ardal lle buwyd unwaith o'r blaen: llawer peth wedi newid, strydoedd ac adeiladau ar eu newydd wedd, pobl yn swnio'n bur wahanol - yn llawer mwy Cymreigaidd!! - fy ymateb i i bobl a phethau wedi newid o'r hyn ydoedd bymtheng mlynedd cyn hynny. A dyna'r peth pwysicaf oll, am wn i: minnau wedi newid tipyn, er mai'r un yn y bôn yw anianawd yr hen Adda sydd ymhob un ohonom.

Anodd i'r darllenydd sylweddoli cymaint yw'r gwaith o gynhyrchu papur bro: ysgrifennu ac annog i ysgrifennu, gwerthu gofod i hysbysebwyr a gofalu eu bod yn cael gwerth eu harian, crynhoi grantiau o ba le bynnag y gellir eu cael a dod o hyd i noddwyr caredig sy'n fodlon rhoi help ymarferol i sicrhau bod y daflen ariannol yn iach, gosod y papur at ei gilydd a'i argraffu, dosbarthu rhai miloedd o gopïau, a gofalu bod pob sianel y dosberthir ef drwyddo yn ei dywys i'r darllenwyr - a cheisio gofalu bod amrywiaeth y cynnwys, yr arddull a'r ysbryd yn diddanu a boddhau gymaint byth ag sy modd!

A chofiwn na fu tâl ar hyd y blynyddoedd am Y Dinesydd. Ar hyn o bryd mae arnom ddyled o dros £400; ond nid oes arnom awydd codi tâl os medrwn osgoi hynny. Mawr obeithiwn y cawn gymorth pob un a roddodd ei nawddogaeth yn y gorffennol, ac y daw rhagor o garedigion i roi cymorth ariannol i'r papur, pa mor fychan neu fawr y bo'r swm. Cewch gyfle i wneud hyn ar un o dudalennau'r rhifyn hwn - a diolch ichi, ymlaen llaw, am ystyried hyn er mwyn sicrhau dyfodol di-ddyled i'r ddolen gydiol werthfawr hon ym mywyd Cymry Cymraeg Caerdydd a'r cylch.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a roes gynhaliaeth i'r Dinesydd yn y gorffennol: y darllenwyr cyson, y gohebwyr parod, y noddwyr twymgalon a hael eu harian, y golygyddion a'r holl swyddogion a phwyllgorwyr a fu'n llywio'r fenter o'r cychwyn. Mae'n bleser cael ymuno â'r teulu ac edrych ymlaen yn frwd at barhad llewyrchus i'r papur bro cyntaf yng Nghymru. Diolch i bawb ohonoch.

Havard Gregory.

---

## GŴYL MUDIAD MEITHRIN '82
## Mai 8fed - 15fed

Dyma ni ym mis Mai unwaith eto - mis yr Ŵyl ym myd yr Ysgolion Meithrin. Mis Colli Pwysau ym myd yr Ŵyl a phawb yn clebach a thynhau eu gwregys dros achos ein hiaith. Bydd y Mudiad yn ysgafnach ei faich wedi'r Ŵyl hon!

Wedi llwyddiant yr orymdaith llynedd, rhaid yw ei rhagori eleni, ac unwaith eto daw'r plant bach yn eu gwisgoedd lliwgar o'r Ysgolion Meithrin a'r Ysgolion Cymraeg ynghyd i deithio drwy ganol y Brifddinas. Bydd miwsig ac adloniant yn adseinio drwy'r strydoedd ar Sadwrn, Mai yr 8fed. Ymunwch â ni am 2 o'r gloch tu allan i Neuadd y Ddinas.

Yn ystod yr wythnos bydd y cylchoedd meithrin eto yn cynnal eu boreau coffi, nosweithiau cawl ac ati - Os cewch wahoddiad, da chi cymerwch hi - cyfle i weld trysorlysiau'r plant bach, a gweithgarwch yr athrawon brwd. Wedi i'r Ŵyl i orffen bydd cyfle pellach i weld gwaith y plant mewn arddangosfa ym mhrif fynedfa Neuadd y Ddinas - am wythnos bellach.

Ar ddiwedd Wythnos yr Ŵyl bydd parti mawreddog i'r holl blant meithrin y sir (a'u brodyr a chwiorydd) yn Ysgol Glantaf. Bydd yno lu o ryfeddodau - consirwyr, chwaraeon, bws chwarae, 'inflatables', bwyd, diod, trên bach, hufen ia, - pob dim i ddiddanu teuluoedd ifanc. Yna, wedi'r bwrlwm, cyfle i'r rhieni ymgasglu yn hamddenol at y nos yn Neuadd Undeb y Myfyrwyr yn y Brifysgol am noson o ddiddanwch Swper a Dawns. Wythnos o hud a lledrith - Ymunwch â ni!! Ond, tra rydym yn dathlu rhaid edrych yn gyfrifol ar sefyllfa ein plant yn yr ysgolion meithrin - oes dilyniant iddynt yn eu hardal mewn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg? Oes lle iddynt yn eu Ysgol Gymraeg agosaf? A fydd lle mewn ysgolion Cymraeg yn y dyfodol? Gwyddom fod addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn fwy dymunol i fwy o bobl bob blwyddyn. Pa ddarpariaeth sydd ar eu cyfer? Rhaid i ni - gweithwyr y tu fewn i'r Mudiad, ein gwirfoddolwyr gyda'i brwdfrydedd a'i hegnion di-ddiwedd, a phawb arall sy'n trefnu tynged y plant bach sydd yn mynychu ein cylchoedd meithrin, sicrhau eu hawlfraint i gael dilyniant yn eu haddysg mewn Ysgol Gymraeg yn yr ardal ble maent yn byw.

APÊL

Oes Ysgol Feithrin yn eich ardal chwi? - Na?

Oes Cylch Mam a'i Phlentyn yn eich ardal chwi? - Na?

Oes gennych chwi ffrindiau sy'n dweud "I wish I'd had the chance to speak Welsh" - Oes?


A fyddech chwi yn hoffi helpu mewn, neu arwain mewn Cylch Meithrin neu Gylch Mam a'i Phlentyn? - Byddech?

Yna cysylltwch ar unwaith ag Avril Jones, Swyddog Datblygu Mudiad Ysgolion Meithrin, 113 Brandreth Rd., Penylan (Ffôn: 757514).

## APÊL PELLACH

Mae eisiau athrawes feithrin dri pnawb yr wythnos yn Ysgol Feithrin Llandaf. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â'r rhif uchod ar unwaith.

# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 22



**Ar Draws:**

4. Prysgwydd aur yw'r banadl, a phalfeisiau yn llechu ynddynt (8)
8. Plethir rhain yn grefftus gan fasgedwr (6)
9. Dydd i Meri, mewn gwisg newydd, i gael hyder yn rhywun (8)
10. "-------- lu'r merthyron" (Elfed) (8)
11. Dai yn derbyn y Bod Mawr i'w galon ac yn cael lles mawr o hynny (6)
12. Pentre'r clychau enwog (8)
13. Daeth R.G. o hyd i rywbeth mewn dau fan gwahanol (8)
16. Dau stiwdant yn rhannu'r un digs, e.e. (8)
19. Y prif Wiliam (y Degfed !) yn mynd drwy'r llyfrau (8)
21. Islaw imi (6)
23. Gŵr y lach sy'n gosod haen o gwmpas y ddaear ac yn creu naws (8)
24. Fel teyrn eisteddfodol (8)
25. Fe welir eu teimladau cryf yn y galon a lanwyd â'u traserch (6)
26. Y llinell unionsyth sy'n penderfynu maint y cylch (8)

**I Lawr:**

1. Arfer gwirioneddau ystrydebol (7)
2. Cario ledi i sedd arobryn (9)
3. Rhaid fod 12 ar draws yn berchen ar un (6)
4. "Y llygaid dwys dan ddwys ddôr,
   - ------ -- -- ----
   (R.W.P.) (1,6,2,2,4)
5. Braidd yn ddihidio (2,6)
6. Ymgyflwyno o'i rym rywsut (5)
7. Rhoddaf bwyslais ar sillaf (7)
14. Sali Gwynn yn troi i fyny heb fod neb yn barod amdani..... (9)
15. .......a hon yn disgwyl llawer? (8)
17. Byddys yn loetran (7)
18. Talu'r pwyth am anghyfiawnder (4,3)
20. Tynnu planhigion gwyllt o'r ardd (6)

22. Mae hwn yn agosach na dim arall (5)

# YN EISIAU

YSGRIFENYDDES GYNORTHWYOL RHAN-AMSER - PRYNHAWNIAU

Gwahoddir ceisiadau am y swydd uchod ar y raddfa dâl Gr.2 £3,836 - £4,729 p.a. pro rata (£1,918 - £2,364 p.a. am wythnos o 17 awr, prynhawniau). Rhaid wrth gefndir addysgol cyffredinol da, gallu llawfer a theipio boddhaol, a gafael gadarn ar Gymraeg llafar ac ysgrifenedig. Parodrwydd i ddechrau gweithio cyn gynted â phosibl.

Dylid anfon ceisiadau, gydag enwau a chyfeiriadau dau gefnogydd, i'r Is-Brifathro (Gweinyddiaeth) a Chofrestrydd, Coleg y Brifysgol, P.O.Box 78, Caerdydd, CF1 1XL.

Dyddiad cau: O fewn wythnos i ymddangosiad yr hysbyseb hwn. Cyf.2384.

---

Mae'n ddrwg gan y Dinesydd godi braw ar Gari Beard trwy gyhoeddi bod Catrin Lewis wedi dyweddio â Gari Williams. Mrs. Beard ac nid Mrs. Williams fydd Catrin rhyw ddiwrnod!

---

DATRYSIAD CROESAIR RHIF 21

**Ar Draws:**

1. BLANCEDI; 5. ATOMFA; 9. ESGUSODI; 10. CECRUS; 11. YMLADDANT; 12. RHIANEDD; 14. COLOMENDAI; 18. CYDFWRIADU; 22. ODYNAU; 23. AILADRODD; 24. IEITHYDD; 25. GORCHYMYN; 26. NERFUS; 27. ADDURNIAD.

**I Lawr:**

1. BLEWYN; 2. AMGYLCH; 3. CIST DDU; 4. DADANSODDIR; 6. TAERINEB; 7. MARWNADU; 8. ANSODDAIR; 13. COEDWIGOEDD; 15. ACTORION; 16. ADFYWIER; 17. GWLADYCHU; 19. CARCHAR; 20. CRYMAI; 21. ADDUNED

Cydymdeimlwn yn ddwys ag Owen Roberts ar golli'i dad, yr actor W.H.Roberts. Colled fawr i Gymru ond colled bersonol fwy i Owen a'r teulu.

Argraffwyd gan Fingerprints(TU), 56 Mackintosh Place, Caerdydd.